

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Llun, 13 Ionawr 2014

Amser:
14:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
- 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 1 - 2)**
CLA(4)-01-14 - Papur 1 - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA337 Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion (Diddymu) a Choleg Ceredigion (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 3 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 5 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2013

CLA338 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 4 Rhagfyr 2013, Fe'u gosodwyd ar: 5 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2013

CLA339 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 3 Rhagfyr 2013; Fe'u gosodwyd ar: 5 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 1 Ionawr 2014

CLA340 – Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 3 Rhagfyr 2013; Fe'u gosodwyd ar: 5 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2013

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA349 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014

(Tudalennau 3 - 15)

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'i gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi; Fe'i gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

CLA(4)-01-14 – Papur 2 – Gorchymyn

CLA(4)-01-14 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

CLA(4)-01-14 – Papur 4 – Adroddiad

CLA(4)-01-14 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA341 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion

Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 (Tudalennau 16 - 38)

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'i gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

CLA(4)-01-14 - Papur 6 - Rheoliadau

CLA(4)-01-14 - Papur 7 - Memorandwm Esboniadol

CLA(4)-01-14 - Papur 8 - Adroddiad

4 Papurau i'w nodi

Gohebiaeth mewn cysylltiad â'r Bil Addysg (Cymru) (Tudalennau 39 - 43)

CLA(4)-01-14 - Papur 9 - Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau

CLA(4)-01-14 - Papur 10 - Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm gan Lywodraeth Cymru
(Tudalennau 44 - 48)

CLA(4) -01-14 - Papur 11 - Y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm gan Lywodraeth Cymru

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod

Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol: Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau Gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013 (Tudalennau 49 - 50)

CLA(4)-01-14 - Papur 12 - Adroddiad Drafft

Trafod y Bil Cymru Drafft (Tudalennau 51 - 69)

CLA(4)-01-14 - Papur 13 - Gwybodaeth Gefndirol

Eitem 2

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-01-14: Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

CLA337 – Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion (Diddymu) a Choleg Ceredigion (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r gorchymyn hwn yn diddymu, yn weithredol o 31 Rhagfyr 2013, y gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i arwain Coleg Ceredigion, ac mae'n dynodi Coleg Ceredigion yn goleg newydd a arweinir gan sefydliad dynodedig a elwir yn Coleg Ceredigion.

Mae'r gorchymyn hefyd yn trosglwyddo holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau y gorfforaeth flaenorol i'r coleg newydd. Caiff y staff a gyflogir gan y gorfforaeth flaenorol ar adeg ei diddymu eu trosglwyddo i'r sefydliad newydd.

CLA338 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae Rheoliadau 1992 yn nodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig a delir gan awdurdodau lleol i'r gronfa ardrethu annomestig genedlaethol. Caiff yr arian o'r gronfa hon ei ailddyrannu i awdurdodau lleol ar sail amcangyfrifon a gyflwynir sy'n seiliedig ar ffigurau'r boblogaeth oedolion. Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy ddefnyddio ffigurau newydd yr awdurdodau lleol o ran y boblogaeth oedolion ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2014, neu ar ôl hynny.

CLA339 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Mae'r diwygiadau yn estyn rhai mesurau trosiannol o dan gyfraith yr UE mewn perthynas â hylendid bwyd a rheolaethau swyddogol ar gyfer

cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a rhai rhanddirymiadau sy'n ymwneud ag amodau achredu labordai sy'n cynnal profion *Trichinella* ar samplau a gymerwyd fel rhan o reolaethau swyddogol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân-ddiwygiadau i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 i gywiro cyfeiriad gwallus at rif paragraff a chyfeiriad at hen gorff proffesiynol, yn y drefn honno.

CLA340 – Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Adran 84 o Orchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ("Cynllun"). Mae Adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun drafft i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo cyn i'r Cynllun hwnnw gael ei gyhoeddi. At hynny, mae Adran 86 o Ddeddf 2013 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.

CLA349 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf").

Mewn perthynas â Chymru, caiff y lluosydd ardrethu annomestig ei gyfrifo ym mhob blwyddyn ariannol na chaiff rhestrau newydd eu llunio ynddi. Mae 2014 yn flwyddyn o'r fath. Gwneir y cyfrifiad drwy gyfeirio at fformiwla a nodir ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf. Mae'r fformiwla yn cynnwys eitem "B", sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer, yn yr achos hwn, mis Medi 2013.

Fodd bynnag, mae paragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i nodi swm arall ar gyfer B, cyhyd ag y bo'r swm hwnnw yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu perthnasol. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2014, y bydd B yn "249".

Eitem 2.5

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2014 Rhif (Cy.)

**ARDRETHU A PHRSIO,
CYMRU**

**Gorchymyn Ardrethu Annomestig
(Lluosydd) (Cymru) 2014**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf").

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig ym mhob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau newydd yn cael eu llunio yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf. Mae 2014 yn flwyddyn pan nad oes rhestrau newydd yn cael eu llunio. Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw.

Mae paragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, fodd bynnag, yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy orchymyn, swm amgen ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol rhaid i'r swm amgen a bennir felly fod yn is na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2014 mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B fydd 249.

Ni fydd y Gorchymyn yn dod i rym ond os yw'n cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2014. O dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf ni

fydd gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, wrth ei gymhwyso i flwyddyn ariannol benodol, yn dod yn effeithiol oni fo wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn, neu cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol (pa un bynnag sydd gynharaf).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Bolisi Trethu Lleol, Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2014 Rhif (Cy.)

**ARDRETHU A PHRSIO,
CYMRU**

**Gorchymyn Ardrethu Annomestig
(Lluosydd) (Cymru) 2014**

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Trysorlys gan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddo, yn unol â pharagraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(3).

-
- (1) 1988 p.41.
- (2) Mae'r pwerau o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.
- (3) Mewnosodwyd paragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan baragraff 25(2) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26). Fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 39(4)(d) o Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007 (O.S. 2007/1388).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir(1).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y lluosydd ardrethu annomestig

2. At ddibenion paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2014, pennir mai 249 yw B.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y
Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(1) O dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ni fydd gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(3) o'r Atodlen honno, wrth ei gymhwyso i flwyddyn ariannol benodol (gan gynnwys gorchymyn sy'n diwygio neu'n dirymu gorchymyn arall), yn dod yn effeithiol oni fo wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn, neu cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol (pa un bynnag sydd gynharaf).

Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Local Government and Communities Department and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014. I am satisfied that the benefits outweigh any costs.

Lesley Griffiths AM
Minister for Local Government and Government Business

6 January 2014

1. Description

This Order sets the increase in the Non Domestic Rate (NDR) Multiplier at 2% for the financial year 2014-15.

It is normally the case the increase is set according to the Retail Price Index (RPI) figure as at the September preceding the financial year to which the multiplier applies. For 2014-15 this would have been 3.2%.

The multiplier, in combination with the Rateable Value (RV) of a non domestic property, is a key element used in calculating the non domestic rates bill. The effect of the Order is to reduce the increase in the 2014-15 rates bill to be paid by businesses and other non-domestic property owners across Wales.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

The 21 day rule is not being complied with in this instance.

The Chancellor's Autumn Statement announced the imposition of a 2% cap on the increase in the NDR multiplier in England. This statement was made on the 5 December. Under the relevant legislation, a multiplier which is set below the level of inflation must be agreed by Assembly Members as part of the affirmative procedure. The relevant legislation specifically provides that this must take place prior to the vote on the Local Government settlement if the order is to be effective. The settlement debate is scheduled to take place on the 14 January. The availability of Assembly members due to the Christmas recess and the rules in the Assembly's Standing Orders governing calculations of periods of time mean the requirement for the Order to be available to Assembly Members for a period of 20 days cannot be met.

Without the certainty of an agreed settlement it would be difficult for authorities to set their budgets for 2014-15, which would then increase the risk of the statutory deadlines for the issue of NDR bills not being met.

3. Legislative background

Under the Local Government Finance Act 1988, the default position is that, for financial years at the beginning of which new rating lists do not need to be compiled, the NDR multiplier for Wales is set by applying a formula set out in paragraph 3B to Schedule 7 to that Act. An element in that formula is the retail prices index for September of the financial year preceding the year concerned. The financial year commencing 1 April 2014 is not a financial year at the beginning of which new rating lists need to be compiled.

However, under paragraph 5(3) of Schedule 7 to that Act, the Welsh Ministers have powers to increase a multiplier below the level of inflation. It is that power which the Welsh Ministers propose to exercise by making this Order.

The Order is subject to the affirmative procedure.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The Order will have the effect of setting the increase in the multiplier at 2% for the financial year 2014-15. In the financial year 2013-14 the NDR multiplier is £0.464. If inflation was used to calculate the multiplier for 2014-15, the multiplier would be £0.479 (0.4788 un-rounded). By restricting the increase for 2014-15 to 2%, the multiplier will be set at a slightly lower level of £0.473. This will obviously present property owner in Wales with a lower rates bill for 2014-15 than they would normally have expected to receive.

All owners of non domestic properties will be affected by the cap. Even those properties which receive significant amounts of rate relief will be affected as the residual amounts due will be calculated using a lower multiplier.

There is a clear objective to the policy. It is aimed at reducing the tax burden to businesses in Wales and to make sure they are not disadvantaged when the cost of non domestic rates in Wales is compared with the cost in other parts of the United Kingdom.

There are no adverse financial effects for Local Government in Wales as the cost of capping the multiplier will be met through the NDR Pool which will be used to 'top up' the distributable amounts which support Local Government and Police funding.

5. Consultation

Because of the nature of the Chancellor's announcement no consultation has been undertaken on the policy underpinning this Order.

PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

Options

Option 1 – Retain the inflationary increase to the multiplier

This option retains would see the NDR multiplier increase from £0.464 to £0.479. This is an increase of 3.2% which was the RPI figure as at September 2013.

Option 2 – Cap the multiplier at 2%

This option would see Wales follow England and restrict the increase to the NDR multiplier to 2% for 2014-15.

Option 3 – Utilisation of existing relief provisions

The existing legislation allows Local Authorities to provide relief to businesses within their areas where it can be demonstrated to be in the interests of other taxpayers in their respective areas. This option would require the Welsh Government to oversee a programme of NDR reliefs being offered by all Local Authorities.

Costs & benefits

Option 1 - Retain the inflationary increase to the multiplier

Retaining the inflationary increase in the multiplier has the following effect on the non domestic rates bill of a premises:

If a property has a Rateable Value, as assessed by the Valuation Office Agency, of £15,000 then the total rates bill for 2013-14 is:

$$RV£15,000 \times 0.464 = £6,960$$

An inflationary increase of 3.2% would see the annual NDR bill for the property increase to:

$$RV£15,000 \times 0.479 = £7,185$$

The increase in the annual charge is therefore £225.

Maintaining the inflationary increase in Wales would mean there would be the potential for the business environment in Wales to be perceived as being less favourable than other regions of the UK. This could act as a disincentive for businesses thinking of locating to Wales, or act as an incentive for businesses thinking of moving out of Wales. Either way, there is the potential for a negative impact on the reputation of Wales within the business community, as well as a potential negative impact on Welsh GDP, if significant numbers of

businesses thought the absence of a cap a sufficient disincentive to invest – or a reason to disinvest.

Option 2 – Cap the multiplier at 2%

This option would result in a lower than anticipated increase in the non domestic rates bill for a property. Using comparable data from Option 1 then:

The rates bill for 2013-14 is:

$$RV£15,000 \times 0.464 = £6,960$$

An increase of 2% for 2014-15 gives a revised bill of:

$$RV£15,000 \times 0.473 = £7,095.$$

The increase in rates for the property is therefore £90 less than anticipated.

This option means Wales follows England in restricting the increase to the multiplier. The disadvantages of the Welsh business environment being perceived as less favourable than that in other parts of the UK are, therefore, avoided.

The cost of capping the increase in the multiplier to 2% would be borne by the Welsh Government through the NDR Pool arrangements. There would be no financial effect on Local Authorities.

Option 3 - Utilisation of existing relief provisions

Using the discretionary powers available to local Authorities would be a much more cumbersome way to achieve the same objective as restricting the increase to the multiplier would achieve.

There would be a requirement to:

- Gain the agreement of all authorities to provide a relief scheme which has the same effect on NDR bills;
- Devise a suitable scheme to reimburse each Local Authority;
- Implement changes to Local Authority software systems; and
- Set aside a budget allocation which would not be part of the NDR Pool. There would be a degree of risk surrounding the ability of the budget to match the benefits offered by restricting the multiplier increase using the NDR Pool.

It would also be highly unlikely we could implement such a scheme within the required timescales.

Option Selection

After considering each of the options above, Option 2 is considered to be the most effective choice.

Consultation

. The timing of the Chancellor's Autumn Statement and the need to agree the Local Government settlement means no consultation has been undertaken on these proposals

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(CLA(4)-01-14)

CLA349 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf").

Mewn perthynas â Chymru, caiff y lluosydd ardrethu annomestig ei gyfrifo ym mhob blwyddyn ariannol na chaiff rhestrau newydd eu llunio ynddi. Mae 2014 yn flwyddyn o'r fath. Gwneir y cyfrifiad drwy gyfeirio at fformiwla a nodir ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf. Mae'r fformiwla yn cynnwys eitem "B", sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer, yn yr achos hwn, mis Medi 2013.

Fodd bynnag, mae paragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i nodi swm arall ar gyfer B, cyhyd ag y bo'r swm hwnnw yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu perthnasol. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2014, y bydd B yn "249".

Craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ionawr 2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business

David Melding AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Rhagfyr 2013

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â'r Lluosydd Ardrethi Annomestig ar gyfer 2014-15. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Canghellor yn Natganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr, ei fod yn gosod cap o 2% ar y cynnydd i'r Lluosydd Ardrethi Annomestig ar gyfer 2014-15 yn Lloegr. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dilyn yr un drefn fel nad yw busnesau Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â busnesau yn Lloegr. Mae'n amlwg y byddai peidio â gwneud hynny yn effeithio ar economi Cymru.

Mae'r darpariaethau sy'n ymdrin â chyfrifo'r Lluosydd i'w gweld yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Fel arfer caiff y Lluosydd ar gyfer blwyddyn benodol ei gyfrifo drwy gymryd Lluosydd y flwyddyn gynt a defnyddio graddfa chwyddiant y mis Medi blaenorol, yna rhannu'r lluoswm â thrydydd ffigur. Byddai'r cap yn golygu na fyddem yn dilyn y drefn arferol ar gyfer cynyddu'r Lluosydd, ac felly mae angen inni, o dan Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, osod Gorchymyn sy'n destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Rhaid gosod y Gorchymyn hwn ar gyfer ei gymeradwyo cyn y ddadl i gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol, gan ei fod yn sail ar gyfer cyfrifo'r ffigurau yn yr Adroddiad o dan Ran III o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Roedd trefniadau eisoes wedi'u gwneud i gynnal y ddadl ar yr Adroddiad hwn ar 14 Ionawr 2014 pan wrnaed Datganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr.

Mae amseriad Datganiad yr Hydref yn golygu na fydd modd gosod y Gorchymyn a chaniatáu'r cyfnod craffu sy'n ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog, cyn y ddadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar 14 Ionawr. Yn wir, ni fyddai wedi bod modd cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog hyd yn oed pe byddem yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y Lluosydd a'r cynigion ariannu, a phe byddem wedi gallu gosod Gorchymyn ar yr un diwrnod â'r Datganiad.

Byddai gohrioi'r ddadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol yn creu anawsterau sylweddol i Awdurdodau Lleol. Rhaid iddynt gytuno ar eu cyllidebau a phennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2014-15 o fewn cyfnodau statudol caeth. Mae angen cymeradwyo'r Gorchymyn yn fuan hefyd fel y gall Awdurdodau Lleol fabwysiadu'r Lluosydd er mwyn paratoi biliau ardrethi annomestig. Bydd hyn hefyd yn darparu eglurdeb i fusnesau er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Er mwyn sicrhau bod modd cynnal y ddadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar 14 Ionawr, fel y trefnwyd, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deudfwrriaethol yn fodlon ystyried y Gorchymyn cyn y dyddiad hwnnw. Gorchymyn byr fydd hwn, yn ymdrin â'r newid i'r Lluosydd yn unig. Mae fy swyddogion eisoes wedi rhoi copi o'r Gorchymyn drafft i'ch swyddogion chi, a byddai fy swyddogion yn falch o ddarparu gwybodaeth dechnegol, pe byddai hynny o gymorth.

Rwy'n sylweddoli ei bod yn anodd gwneud trefniadau fel hyn yr adeg hon o'r flwyddyn, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ateb buan.



Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2014 Rhif (Cy.)

TRETH GYNGOR, CYMRU

**Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2014**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod bilio yng Nghymru yn gwneud cynllun sy'n pennu pa ostyngiadau a fydd yn gymwys i'r symiau o'r dreth gyngor a fydd yn daladwy gan bersonau, neu ddosbarthiadau o bersonau, yr ystyria'r awdurdod eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn pennu pa faterion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn pennu cynllun a fydd yn cael effaith mewn perthynas ag anheddau yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud cynllun ei hunan ar 31 Ionawr 2014, neu cyn hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn. Mae'r diwygiadau yn rheoliadau 5 a 16 yn diwygio'r rhestr o bersonau nad oes angen iddynt ddangos eu bod yn breswylwyr arferol, yn gyntaf drwy ddiweddarau'r ddarpariaeth ar gyfer personau sydd â chaniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, ac yn ail drwy gynnwys y gwladolion Croatia hynny sy'n ddarostyngedig i'r cynllun awdurdodi gweithwyr ac a drinnir fel gweithwyr o dan y cynllun hwnnw.

Mae'r diwygiadau yn rheoliadau 6(a), 7, 9(a), 10(a), (b) a (d) i (f), 17, 27 a 28(a), (b) a (d) i (f) yn cynyddu rhai o'r ffigurau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson hawl ai peidio i gael gostyngiad, a swm unrhyw ostyngiad. Mae'r ffigurau uwchraddedig yn ymwneud â didyniadau annibynyddion (sef addasiadau i uchafswm y gostyngiad y mae hawl gan berson i'w gael, er mwyn cymryd i ystyriaeth oedolion sy'n byw yn yr annedd ac nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd); ac â'r swm cymwysadwy mewn perthynas â chais am ostyngiad (sef y swm y cymherir incwm ceisydd gyferbyn ag ef, er mwyn penderfynu swm y gostyngiad y mae hawl gan y ceisydd i'w gael).

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 8,11,31 a 32 yn darparu ar gyfer diystyru taliadau penodol a wneir gan lywodraeth leol at ddibenion lles, ôl-ddyledion credyd cynhwysol penodol a thaliadau ar sail oed penodol wrth asesu cyfalaf ceisydd.

Mae'r diwygiadau yn rheoliadau 3, 4, 6(b), 9(b), 10(c), 12, 14, 15, 18 i 26, 28(c), 29 a 30 yn cywiro gwallau a ymddangosodd yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2014 Rhif (Cy.)

TRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2014

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1) a pharagraff 6 o Atodlen 1B i'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(1) 1992 p.14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p.17), a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 4 iddi.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

2. Diwygir Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(1) yn unol â rheoliadau 3 i 12.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn lle paragraff (c) o'r diffiniad o "ysbyty annibynnol" ("*independent hospital*") rhodder—

"(c) yn yr Alban, gwasanaeth gofal iechyd annibynnol neu ysbyty seiciatrig preifat fel y'u diffinnir gan adran 10F(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978 (2);";

(b) yn y diffiniad o "rhent" ("*rent*"), yn lle "rheoliad 12" rhodder "rheoliad 12B".

4. Yn rheoliad 8 (aelwydydd)—

(a) ym mharagraff 2(a), ar ôl "letya" mewnosoder "neu ei leoli";

(b) ym mharagraff (5)—

(i) hepgorer "a" ar ôl is-baragraff (o); a

(ii) ar ôl is-baragraff (o), mewnosoder—

"(oa) Deddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011(3); a".

5. Yn rheoliad 28 (personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr)—

(a) yn lle paragraff (5)(e) rhodder—

"(e) yn berson y rhoddwyd iddo, neu'r ystyrir y rhoddwyd iddo, ganiatâd y tu allan i'r rheolau a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(4), pan fo'r caniatâd hwnnw yn—

(i) caniatâd disgresiynol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi,

(ii) caniatâd i aros o dan y consesiwn Amddifadedd Trais Domestig(5), neu

(iii) caniatâd yr ystyrir y'i rhoddwyd yn rhinwedd rheoliad 3 o Reoliadau Personau a

(1) O.S. 2013/3029 (Cy. 301).

(2) 1978 p.29; mewnosodwyd adran 10F gan adran 108 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010 (dsa 8).

(3) 2011 dsa 1.

(4) 1971 p.77.

(5) Cyhoeddir y consesiwn Amddifadedd Trais Domestig gan y Swyddfa Gartref yn <http://ukba.homeoffice.gov.uk/>.

Ddadleolwyd (Diogelu Dros Dro)
2005(1);”;

- (b) hepgorer paragraff (5)(h);
- (c) hepgorer paragraff (5)(i);
- (d) ar ôl paragraff (5)(j) mewnosoder—

“(k) yn berson a drinnir fel gweithiwr at ddibenion y diffiniad o “qualified person” yn rheoliad 6(1) o’r Rheoliadau AEE yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013(2) (hawl preswyllo Croatiad sy’n “wladolyn gwladwriaeth ymaelodol yn ddarostyngedig i awdurdodi gweithwyr”).”

6. Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: pensïynwyr)—

- (a) ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensïynwyr)—
 - (i) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£10.95” rhodder “£11.30”;
 - (ii) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£3.65” rhodder “£3.75”;
 - (iii) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “£186.00” rhodder “£188.00”;
 - (iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£186.00”, “£322.00” a “£7.25” rhodder “£188.00”, “£326.00” a “£7.50” yn eu trefn;
 - (v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£322.00”, “£401.00” a “£9.15” rhodder “£326.00”, “£406.00” a “£9.45” yn eu trefn;
 - (vi) yn is-baragraff (7)(d)(i) yn lle “rheoliad 24(6)” rhodder “rheoliad 26(6)”;
- (b) ym mharagraff 10(1)(v)(iii) (ystyr “incwm”: pensïynwyr), yn y testun Cymraeg, yn lle “ar ôl talu rhent” rhodder “am dalu rhent”;
- (c) ym mharagraff 11(3)(b)(iii) (cyfrifo incwm wythnosol: pensïynwyr), yn y testun Cymraeg, yn lle “ganiatáu” rhodder “alluogi”;
- (d) ym mharagraff 14(1)(b) (cyfrifo enillion enillwyr hunangyflogedig: pensïynwyr), yn y testun Cymraeg, yn lle “dros ba bynnag gyfnod” rhodder “dros ba bynnag gyfnod arall”;

(1) O.S. 2005/1379 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2013/630 ac offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i’r diwygiad hwn.

(2) O.S. 2013/1460.

- (e) ym mharagraff 19(14)(c) (trin costau gofal plant: pensiynwyr), yn lle “o Ddeddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1994” rhodder “o Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994(1)”;
- (f) ym mharagraff 24(4)(a) (cyfrifo didyniad treth a chyfraniadau enillwyr hunangyflogedig), yn lle “baragraff 23(3)(a) neu, yn ôl fel y digwydd, paragraff 23(4)” rhodder “baragraff 23(2)(a) neu, yn ôl fel y digwydd, paragraff 23(3)”.

7. Yn Atodlen 2 (Symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£145.40” a “£163.50” rhodder “£148.35” a “£165.15” yn eu trefn;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£222.05” a “£244.95” rhodder “£226.50” a “£247.20” yn eu trefn;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£222.05” a “£76.65” rhodder “£226.50” a “£78.15” yn eu trefn;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£244.95” ac “£81.45” rhodder “£247.20” ac “£82.05” yn eu trefn;
- (b) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 2 (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£65.62” ym mhob man lle mae'n digwydd rhodder “£66.33”;
- (c) yn yr ail golofn o'r Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£59.50” ym mhob man lle mae'n digwydd rhodder “£61.10” ac yn lle “£119.00” rhodder “£122.20”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£23.45” rhodder “£24.08”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£57.89” rhodder “£59.50”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£33.30” rhodder “£34.20”.

8. Yn Atodlen 5 (diystiriadau cyfalaf: pensiynwyr)—

- (a) ym mharagraff 21—
 - (i) yn is-baragraff (1)(e) yn lle “.” rhodder “,”;

(1) 1994 p.39.

- (ii) ar ôl is-baragraff (1)(e) mewnosoder—
 - “(f) ar ffurf cymorth achlysurol, gan gynnwys ôl-ddyledion a thaliadau yn lle cymorth achlysurol.”;
- (iii) ar ddiwedd is-baragraff (2)(n) hepgorer “neu”;
- (iv) yn is-baragraff (2)(o) yn lle “.” rhodder “,”;
- (v) ar ôl is-baragraff (2)(o) mewnosoder—
 - “(p) taliadau o’r gronfa gymdeithasol o dan Ran 8 o DCBNC; neu;
 - (q) credyd cynhwysol.”;
- (b) ym mharagraff 22—
 - (i) yn is-baragraff (2)(e) yn lle “,” rhodder “,”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (2)(e) mewnosoder—
 - “(f) paragraff 18 o Atodlen 10 i Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013(1),”;
- (c) Ar ôl paragraff 32 mewnosoder—

“33. Unrhyw daliad a wneir gan y Trysorlys i’r ceisydd neu i bartner y ceisydd o dan Reoliadau Taliadau ar Sail Oed 2013(2) (Equitable Life) fel derbynnydd blwydd-dal Equitable Life cymwys.”

9. Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensynwyr)—
 - (i) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “10.95” rhodder “£11.30”;
 - (ii) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£3.65” rhodder “£3.75”;
 - (iii) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “£186.00” rhodder “£188.00”;
 - (iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£186.00”, “£322.00” a “£7.25” rhodder “£188.00”, “£326.00” a “£7.50” yn eu trefn;
 - (v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£322.00”, “£401.00” a “£9.15” rhodder “£326.00”, “£406.00” a “£9.45” yn eu trefn;
 - (vi) yn is-baragraff (7)(d)(i) yn lle “rheoliad 24(6)” rhodder “rheoliad 26(6)”;

(1) O.S. 2013/376.
 (2) O.S. 2013/2980.

- (b) ym mharagraff 25(4)(a) (cyfrifo didyniad treth a chyfraniadau enillwyr hunangyflogedig), yn lle “is-baragraff (3)(a) neu, yn ôl fel y digwydd, is-baragraff (5) o baragraff 24” rhodder “is-baragraff (3)(a) neu, yn ôl fel y digwydd, is-baragraff (4) o baragraff 24”.

10. Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£71.70” ym mhob man lle mae'n digwydd rhodder “£72.40” ac yn lle “£56.80” rhodder “£57.35”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£71.70” rhodder “£72.40”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£112.55” rhodder “£113.70”;
- (b) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 3 (lwfansau personol), yn lle “£65.62” ym mhob man lle mae'n digwydd rhodder “£66.33”;
- (c) ym mharagraff 10(2) (amod ychwanegol ar gyfer y premiwm anabled), yn lle “is-baragraff (1)(a)(vi)” rhodder “is-baragraff (1)(a)(vii)”;
- (d) yn yr ail golofn o'r Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£31.00” a “£44.20” rhodder “£31.85” a “£45.40” yn eu trefn;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£59.50” ym mhob man lle mae'n digwydd rhodder “£61.10” ac yn lle “£119.00” rhodder “£122.20”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£57.89” rhodder “£59.50”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£33.30” rhodder “£34.20”;
 - (v) yn is-baragraff (5) yn lle “£23.45”, “£15.15” a “£21.75” rhodder “£24.08”, “£15.55” a “£22.35” yn eu trefn;
- (e) ym mharagraff 23 (swm yr elfen gweithgaredd perthynol i waith), yn lle “£28.45” rhodder “£28.75”;
- (f) ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle “£34.80” rhodder “£35.75”.

11. Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“(2A) Unrhyw daliad a wnaed i’r ceisydd mewn perthynas ag unrhyw deithio neu dreuliau eraill a dynnwyd, neu sydd i’w tynnu, gan y ceisydd mewn perthynas â chyfranogiad y ceisydd mewn cynllun a ragnodir yn rheoliad 3 o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith (Cynlluniau i Gynorthwyo Personau i Gael Cyflogaeth) 2013⁽¹⁾ ond am 52 o wythnosau yn unig gan ddechrau gyda dyddiad derbyn y taliad.”;

(b) ym mharagraff 12—

(i) yn is-baragraff (1)(f) yn lle “,” rhodder “,”;

(ii) ar ôl is-baragraff (1)(f) mewnosoder—

“(g) credyd cynhwysol,”;

(c) ar ôl paragraff 62 mewnosoder—

“**63.** Unrhyw daliad a wneir gan y Trysorlys i’r ceisydd neu i bartner y ceisydd o dan Reoliadau Taliadau ar Sail Oed 2013 (Equitable Life) fel derbynnydd blwydd-dal Equitable Life cymwys.”

12. Yn Atodlen 11 (myfyrwyr)—

(a) ym mharagraff 9 (trin benthyciadau myfyriwr)—

(i) yn is-baragraff (2)(b) hepgorer “, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae i “chwarter” yr ystyr a roddir i “quarter” at ddibenion Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) 2005”;

(ii) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

“(6) At ddibenion y paragraff hwn ystyr “chwarter” (“*quarter*”) mewn perthynas â blwyddyn academiaidd yw cyfnod yn y flwyddyn honno sydd —

(a) yn dechrau ar 1 Ionawr ac yn diweddu ar 31 Mawrth;

(b) yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn diweddu ar 30 Mehefin;

(c) yn dechrau ar 1 Gorffennaf ac yn diweddu ar 31 Awst; neu

(d) yn dechrau ar 1 Medi ac yn diweddu ar 31 Rhagfyr.”;

(b) ym mharagraff 10 (trin benthyciadau ffioedd), yn lle “Orchymyn Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Gogledd Iwerddon) 1988” rhodder “Orchymyn Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998”.

(1) O.S. 2013/276.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

13. Diwygir y cynllun a bennir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(1) yn unol â rheoliadau 14 i 32.

14. Ym mharagraff 2(1) (dehongli)—

- (a) yn lle paragraff (c) o'r diffiniad o "ysbyty annibynnol" ("*independent hospital*") rhodder—

"(c) yn yr Alban, gwasanaeth gofal iechyd annibynnol neu ysbyty seiciatrig preifat fel y'u diffinnir gan adran 10F(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(2);";

- (b) yn y diffiniad o "rhent" ("*rent*"), yn lle "rheoliad 12" rhodder "rheoliad 12B".

15. Ym mharagraff 8 (aelwydydd)—

- (a) yn is-baragraff (2)(a) ar ôl "letya" mewnosoder "neu ei leoli";

- (b) yn is-baragraff (5)—

(i) hepgorer "a" ar ôl paragraff (o); a

(ii) ar ôl paragraff (o) mewnosoder—

- (iii) "(oa) Deddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011(3); a".

16. Ym mharagraff 19 (dosbarth o bersonau a eithrir o'r cynllun hwn: personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr)—

- (a) Yn lle is-baragraff (5)(e) rhodder—

"(e) yn berson y rhoddwyd iddo, neu'r ystyrir y rhoddwyd iddo, ganiatâd y tu allan i'r rheolau a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(4), pan fo'r caniatâd hwnnw yn—

(i) caniatâd disgresiynol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi,

(ii) caniatâd i aros o dan y consesiwn Amddifadedd Trais Domestig(5), neu

(1) O.S. 2013/3035 (Cy.303).

(2) 1978 p.29; mewnosodwyd adran 10F gan adran 108 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010 (dsa 8).

(3) 2011 dsa 1.

(4) 1971 c.77.

(5) Cyhoeddir y consesiwn Amddifadedd Trais Domestig gan y Swyddfa Gartref yn <http://ukba.homeoffice.gov.uk/>.

(iii) caniatâd yr ystyrir y'i rhoddwyd yn rhinwedd rheoliad 3 o Reoliadau Personau a Ddadleolwyd (Diogelu Dros Dro) 2005(1);”;

(b) hepgorer is-baragraff (5)(h);

(c) hepgorer is-baragraff (5)(i);

(d) ar ôl is-baragraff (5)(j) mewnosoder—

“(k) yn berson a drinnir fel gweithiwr at ddibenion y diffiniad o “qualified person” yn rheoliad 6(1) o'r Rheoliadau AEE yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013(2) (hawl preswyllo Croatiaid sy'n wladolyn gwladwriaeth ymaelodol yn ddarostyngedig i awdurdodi gweithwyr).”

17. Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£10.95” rhodder “£11.30”;

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£3.65” rhodder “£3.75”;

(c) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “£186.00” rhodder “£188.00”;

(d) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£186.00”, “£322.00” a “£7.25” rhodder “£188.00”, “£326.00” a “£7.50” yn eu trefn;

(e) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£322.00”, “£401.00” a “£9.15” rhodder “£326.00”, “£406.00” a “£9.45” yn eu trefn.

18. Ym mharagraff 55(14)(c) (trin costau gofal plant), yn lle “o Ddeddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1994” rhodder “o Ddeddf Llywodraeth Leol etc (Yr Alban) 1994(3)”.

19. Ym mharagraff 59(4)(a) (cyfrifo didyniad treth a chyfraniadau enillwyr hunangyflogedig), yn lle “is-baragraff (3)(a) neu, yn ôl fel y digwydd, is-baragraff (5) o baragraff 58” rhodder “is-baragraff (3)(a) neu, yn ôl fel y digwydd, is-baragraff (4) o baragraff 58”.

20. Ym mharagraff 64(4)(e) (cyfalaf tybiannol), yn lle “ym mharagraff 49(1)(a)” rhodder “ym mharagraff 49(a)”.

(1) O.S. 2005/1379 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/630 ac offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r diwygiad hwn.

(2) O.S. 2013/1460.

(3) 1994 p.39.

21. Ym mharagraff 65(10)(b) (rheol lleihau cyfalaf tybiannol: pensynwyr), yn lle “is-baragraff (5)(b)” rhodder “is-baragraff (5)(c)”.

22. Ym mharagraff 70(1) (dehongli), yn is-baragraff (b) o’r diffiniad o “full-time course of study” (“*cwrs astudio llawn amser*”), yn y testun Saesneg, yn lle “Education Act 2012” rhodder “Education Act 2002”.

23. Ym mharagraff 78 (trin benthyciadau myfyrwyr)—

(a) yn is-baragraff (2)(b) hepgorer “, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae i “chwarter” yr ystyr a roddir i “quarter” at ddibenion Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) 2005”;

(b) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

“(6) At ddibenion y paragraff hwn ystyr “chwarter” (“*quarter*”) mewn perthynas â blwyddyn academiaidd yw cyfnod yn y flwyddyn honno sydd—

(a) yn dechrau ar 1 Ionawr ac yn diweddu ar 31 Mawrth;

(b) yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn diweddu ar 30 Mehefin;

(c) yn dechrau ar 1 Gorffennaf ac yn diweddu ar 31 Awst; neu

(d) yn dechrau ar 1 Medi ac yn diweddu ar 31 Rhagfyr.”.

24. Ym mharagraff 79 (trin benthyciadau ffioedd), yn lle “Orchymyn Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1988” rhodder “Orchymyn Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998”.

25. Ym mharagraff 97(1) (y berthynas rhwng gostyngiad estynedig a hawlogaeth i ostyngiad yn rhinwedd perthyn i ddsbarth C neu D), yn y testun Cymraeg, yn lle “ym mharagraff 93(1)(b)” rhodder “ym mharagraff 93(1)(b) (gostyngiadau estynedig: personau nad ydynt yn bensynwyr)”.

26. Yn lle’r pennawd ar gyfer paragraff 103 “Gostyngiadau estynedig: symudwyr i mewn i ardal awdurdod: personau nad ydynt yn bensynwyr” rhodder “Gostyngiadau estynedig: symudwyr i mewn i ardal awdurdod: pensynwyr a phersonau nad ydynt yn bensynwyr”.

27. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—

- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£145.40” a “£163.50” rhodder “£148.35” a “£165.15” yn eu trefn;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£222.05” a “£244.95” rhodder “£226.50” a “£247.20” yn eu trefn;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£222.05” a “£76.65” rhodder “£226.50” a “£78.15” yn eu trefn;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£244.95” ac “£81.45” rhodder “£247.20” ac “£82.05” yn eu trefn;
- (b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 2 (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£65.62” ym mhob man lle mae’n digwydd rhodder “£66.33”;
- (c) yn yr ail golofn o’r Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3)—
- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£59.50” ym mhob man lle mae’n digwydd rhodder “£61.10” ac yn lle “£119.00” rhodder “£122.20”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£23.45” rhodder “£24.08”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£57.89” rhodder “£59.50”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£33.30” rhodder “£34.20”.

28. Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£71.70” ym mhob man lle mae’n digwydd rhodder “£72.40” ac yn lle “£56.80” rhodder “£57.35”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£71.70” rhodder “£72.40”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£112.55” rhodder “£113.70”;
- (b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 3 (lwfansau personol), yn lle “£65.62” ym mhob man lle mae’n digwydd rhodder “£66.33”;
- (c) ym mharagraff 10(2) (amod ychwanegol ar gyfer y premiwm anabled), yn lle “is-baragraff (1)(a)(vi)” rhodder “is-baragraff (1)(a)(vii)”;
- (d) yn yr ail golofn o’r Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3)—

- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£31.00” a “£44.20” rhodder “£31.85” a “£45.40” yn eu trefn;
- (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£59.50” ym mhob man lle mae’n digwydd rhodder “£61.10” ac yn lle “£119.00” rhodder “£122.20”;
- (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£57.89” rhodder “£59.50”;
- (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£33.30” rhodder “£34.20”;
- (v) yn is-baragraff (5) yn lle “£23.45”, “£15.15” a “£21.75” rhodder “£24.08”, “£15.55” a “£22.35” yn eu trefn;
- (e) ym mharagraff 23 (swm yr elfen gweithgaredd perthynol i waith), yn lle “£28.45” rhodder “£28.75”;
- (f) ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle “£34.80” rhodder “£35.75”.

29. Ym mharagraff 9(1) o Atodlen 6 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensynwyr), yn lle “paragraffau 4, 6, 7 a 9” rhodder “paragraffau 4, 5, 6 a 7”.

30. Yn Atodlen 7 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) ym mharagraff 32(e), yn y testun Saesneg, yn lle “section 18” rhodder “ section 18(2)(c)”;
- (b) ym mharagraff 40 yn lle “paragraff 78(3)” rhodder “paragraff 80(3)”.

31. Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensynwyr)—

- (a) ym mharagraff 21—
 - (i) yn is-baragraff (1)(e) yn lle “.” rhodder “,”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (1)(e) mewnosoder—
 - “(f) ar ffurf cymorth achlysurol, gan gynnwys ôl-ddyledion a thaliadau yn lle cymorth achlysurol.”;
 - (iii) ar ddiwedd is-baragraff (2)(n) hepgorer “neu”;
 - (iv) yn is-baragraff (2)(o) yn lle “.” rhodder “,”;
 - (v) ar ôl is-baragraff (2)(o) mewnosoder—
 - “(p) taliadau o’r gronfa gymdeithasol o dan Ran 8 o DCBNC; neu;
 - (q) credyd cynhwysol.”;
- (b) ym mharagraff 22—

(i) yn is-baragraff (2)(d) yn lle “,” rhodder “,”;

(ii) yn is-baragraff (2)(e) yn lle “,” rhodder “,”;

(iii) ar ôl is-baragraff (2)(e) mewnosoder—

“(f) paragraff 18 o Atodlen 10 i Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013(1),”;

(c) Ar ôl paragraff 32 mewnosoder—

“**33.** Unrhyw daliad a wneir gan y Trysorlys i'r ceisydd neu i bartner y ceisydd o dan Reoliadau Taliadau ar Sail Oed 2013(2) (Equitable Life) fel derbynnydd blwydd-dal Equitable Life cymwys.”

32. Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

(a) Ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“(2A) Unrhyw daliad a wnaed i'r ceisydd mewn perthynas ag unrhyw deithio neu dreuliau eraill a dynnwyd, neu sydd i'w tynnu, gan y ceisydd mewn perthynas â chyfranogiad y ceisydd mewn cynllun a ragnodir yn rheoliad 3 o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith (Cynlluniau i Gynorthwyo Personau i Gael Cyflogaeth) 2013(3) ond am 52 o wythnosau yn unig gan ddechrau gyda dyddiad derbyn y taliad.”;

(b) ym mharagraff 12—

(i) yn is-baragraff (1)(f) yn lle “,” rhodder “,”;

(ii) ar ôl is-baragraff (1)(f) mewnosoder—

“(g) credyd cynhwysol,”;

(c) ar ôl paragraff 62 mewnosoder—

“**63.** Unrhyw daliad a wneir gan y Trysorlys i'r ceisydd neu i bartner y ceisydd o dan Reoliadau Taliadau ar Sail Oed 2013 (Equitable Life) fel derbynnydd blwydd-dal Equitable Life cymwys.”

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y
Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2013/376.
(2) O.S. 2013/2980.
(3) O.S. 2013/276.

Explanatory Memorandum to the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014.

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Local Government Finance & Performance Division and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014. I am satisfied that the benefits outweigh any costs.

Lesley Griffiths

Minister for Local Government & Local Government Business
9 December 2013

Description

1. This statutory instrument uprates certain figures used to calculate a claimant's entitlement to a reduction under a council tax reduction scheme, and the subsequent level of reduction, and relates to both the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 and the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 (the 2013 Regulations).
2. This statutory instrument also addresses a number of minor technical points identified during the scrutiny of the 2013 Regulations

Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

3. The Committee may wish to refer to the Welsh Government response laid on 20 November, which accepts a number of the technical points raised in the Committee's reports on the 2013 Regulations.

Legislative background

4. Section 9 of, and Schedule 4 to, the Local Government Finance Act 2012 inserted a new Section 13A and new Schedule 1B into the Local Government Finance Act 1992. These provisions enabled Welsh Ministers to introduce council tax reduction schemes in Wales, via regulations.
5. The relevant provisions in the Local Government Finance Act 2012 were subject to a Legislative Consent Motion which was approved by the National Assembly for Wales on 26th June 2012. The Local Government Finance Act 2012 received Royal Assent on 1 November 2012.
6. This statutory instrument is being made under the new section 13A of, and the new Schedule 1B to, the Local Government Finance Act 1992.
7. The instrument is subject to approval of the Assembly (the affirmative procedure).

Purpose and intended effect of the legislation

8. The Welfare Reform Act 2012 contained provisions to abolish Council Tax Benefit from 31 March 2013. From this date, the responsibility to provide support for council tax and the funding associated with it, has been devolved to Local Authorities in England, to the Scottish Government and to the Welsh Government.
9. In line with the provisions in the Act, the 2013 regulations govern the operation of council tax reduction schemes in Wales and these are designed to ensure all Local Authorities introduce some form of council tax support.

10. The 2013 regulations were approved by the National Assembly for Wales on the 26 November 2013.
11. This statutory instrument amends both sets of the 2013 regulations to uprate certain figures used within those regulations to calculate entitlement to a reduction, and subsequently the amount of a reduction. The uprated figures relate to:
 - Non-dependant deductions (adjustments made to the maximum amount of reduction a person can receive to take account of adults living in the dwelling who are not dependants of the applicant);
 - The applicable amount (the amount against which an applicant's income is compared to determine the amount of reduction they are entitled to); and
 - The disregard that applies when calculating a person's income.
12. These uprated figures have been calculated with assistance from DWP following the Chancellor's Autumn Statement and the uprating of interrelated social security benefits such as Savings Credit. The uprating increases the various figures used to calculate an applicant's entitlement to a reduction, and the amount of the reduction, in line with increased living costs and earnings.
13. Whilst the scale of the impact is dependent on an applicant's particular circumstances, almost all applicants will be worse off in 2014/15 if the uprating amendments are not made. For example, a disabled, lone parent with a disabled child, and a weekly Council Tax liability of £20 per week, would be, on average, £1.08 a week worse off if the Regulations are not uprated (or £56.16 per year).
14. In addition to the uprating, this statutory instrument also amends the list of persons who do not need to show habitual residence for the purposes of determining entitlement to a reduction, to:
 - Update provisions covering persons with leave to remain in the United Kingdom, to enable the provisions to be extended in the future to include further categories of persons granted leave to remain or the right to reside in the United Kingdom; and
 - Include nationals from Croatia who are subject to the worker authorisation scheme.
15. Provisions are also included for certain payments to be disregarded when assessing an applicant's capital, namely:
 - Certain payments made by local government for welfare purposes, for example the Discretionary Assistance Fund;
 - Certain arrears of Universal Credit;
 - Any payment made by the Treasury to the applicant or the applicant's partner under the Age-Related Payments Regulations 2013 (Equitable Life) as a qualifying Equitable Life annuitant; and
 - Any payment made to the applicant in respect of any travel or other expenses incurred, as a result of the applicant's participation in a

scheme prescribed in Regulation 3 of the Jobseeker's Allowance (Schemes for Assisting Persons to Obtain Employment) Regulations 2013.

16. This statutory instrument also addresses a number of minor technical points identified by the Constitutional and Legislative Affairs Committee during its scrutiny of the 2013 regulations.
17. A number of other minor errors relating to differences between the English and Welsh text of the Regulations, identified by the Constitutional and Legislative Affairs Committee during scrutiny, have also been corrected.

Consultation

18. No consultation has been undertaken in respect of this statutory instrument. However, the 2013 Regulations were consulted upon and details of this are provided in the Regulatory Impact Assessments accompanying those Regulations.

Regulatory Impact Assessment (RIA)

Options

Option 1 – Do nothing

19. Not making an amending set of Regulations to uprate the financial figures in the 2013 Regulations in line with cost-of-living increases.
20. Due to cost-of-living increases such as council tax rises and inflation, not uprating could make applicants approximately 50p to £1.50 worse of per week (approximately £26 to £78 worse of a year) dependent on their personal circumstances.

Option 2 – Make amending Regulations to uprate the financial figures

21. Making amending Regulations to uprate the financial figures will maintain applicants' entitlement to a council tax reduction in line with cost-of-living increases.

Costs & benefits

Option 1 – Do nothing

22. Not uprating the financial figures in line with cost-of-living increases could make applicants who are not pass-ported onto CTRS i.e. those not in receipt of a contributory benefit (for example Job Seeker's Allowance or Pension Credit) worse off by approximately 50p to £1.50 per week, dependent on their personal circumstances. For applicants currently in receipt of a partial reduction in their council tax liability, this could mean their council tax liability will increase. For applicants currently in receipt of a full reduction in their council tax liability (as their income is less than the applicable amount) it

could mean they will have to pay a small amount of council tax for the first time.

23. CTRS and Housing Benefit are administered together by Local Authorities and most applicants for CTRS are also in receipt of Housing Benefit. The UK Government is uprating Housing Benefit therefore not uprating CTRS could lead to confusion for applicants who will be treated differently under schemes providing similar financial assistance.
24. Not uprating could also lead to increased costs for local government as they could have to issue, and subsequently collect, additional small value bills. This could also lead to indirect costs such as increased council tax collection costs or a decrease in collection rates.
25. However, not uprating will help to limit any increases in expenditure on Council Tax Reduction Schemes, helping to manage the funding shortfall. Although this impact will be partially offset by an increase in the non dependant deduction rates. The uprating will increase the fixed amount deducted from an applicant's Council Tax Reduction based on the gross weekly income of any non dependants. Consequently, the overall increase in the cost of Council Tax Reduction Schemes is not expected to rise significantly as a result of the uprating.

Option 2 – Make amending Regulations to uprate the financial figures

26. Uprating the financial figures will maintain applicants' entitlement to a council tax reduction in line with cost-of-living increases such as inflation and council tax rises. This will avoid the likely increases in applicants' council tax liability (of approximately 50p to £1.50 per week) which could result if the figures are not uprated.
27. Uprating the financial figures used to calculate entitlement to a reduction will keep CTRS in line with Housing Benefit, which the UK Government will be uprating. This will avoid any additional administrative burden for Local Authorities or advice providers.
28. However uprating will increase expenditure on council tax reduction schemes, exacerbating the funding shortfall. Although this impact will be partially offset by an increase in the non dependant deduction rates. The uprating will increase the fixed amount deducted from an applicant's Council Tax Reduction based on the gross weekly income of any non dependants. Consequently, the overall increase in the cost of Council Tax Reduction Schemes is not expected to rise significantly as a result of the uprating.

Sectors

29. Local Government and the Voluntary Sector have been consulted during the development of proposals to introduce Council Tax Reduction Schemes in Wales. This is detailed in the Consultation section.

30. This legislation will not affect the Business Sector.

Duties

31. In drafting these Regulations consideration has been given to Welsh Minister's duty to promote equality and eliminate discrimination and an Equality Impact Assessment has been completed.

32. Council Tax Reduction Schemes will be implemented and operated by Local Authorities who are under general duties to comply with Welsh Language and Sustainable Development duties.

Competition Assessment

33. This has been scored against the competition filter test which indicated that there will be no detrimental effect on competition.

Post implementation review

34. As a result of the impact of wider welfare reform changes and the current uncertainty around the level of funding that will be provided by the UK Government to operate council tax reductions schemes in Wales, this legislation will have to be reviewed in 2014-15 to consider any amendments required for 2015-16.

Adroddiad drafft Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-01-14

CLA341 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau yn rheoliadau 5 a 16 yn diwygio'r rhestr o bersonau nad oes angen iddynt ddangos eu bod yn breswylwyr arferol, yn gyntaf drwy ddiweddarau'r ddarpariaeth ar gyfer personau sydd â chaniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, ac yn ail drwy gynnwys y gwladolion Croatia hynny sy'n ddarostyngedig i'r cynllun awdurdodi gweithwyr ac a drinnir fel gweithwyr o dan y cynllun hwnnw.

Mae'r diwygiadau yn rheoliadau 6(a), 7, 9(a), 10(a), (b) a (d) i (f), 17, 27 a 28(a), (b) a (d) i (f) yn cynyddu rhai o'r ffigurau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson hawl ai peidio i gael gostyngiad, a swm unrhyw ostyngiad.

Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 8, 11, 31 a 32 yn darparu ar gyfer diystyru taliadau penodol a wneir gan lywodraeth leol at ddibenion lles, ôl-ddyledion credyd cynhwysol penodol a thaliadau ar sail oed penodol wrth asesu cyfalaf ceisydd.

Mae'r diwygiadau yn rheoliadau 3, 4, 6(b), 9(b), 10(c), 12, 14, 15, 18 i 26, 28(c), 29 a 30 yn cywiro gwallau a ymddangosodd yn y prif Reoliadau.

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cafwyd cyfeiriadau anghywir at ysbytai annibynnol yn yr Alban yn y diffiniad o 'ysbyty annibynnol' yn y prif Reoliadau. Diben rheoliadau 3(a) ac 11(a) o'r Rheoliadau presennol yw cywiro'r gwallau hynny. Mae'r testun Saesneg yn gywir, ac yn rhoi cyfeiriad at 'independent hospital' (ysbyty annibynnol) yn lle'r cyfeiriad at 'independent helathcare service'. Yn anffodus mae'r testun Cymraeg yn parhau i gyfeirio at 'gwasanaeth gofal iechyd annibynnol'.

[Rheol Sefydlog 21.2 – anghysondeb rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg]

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Rhagfyr 2013

Eitem 4.1

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/HL/1245/13

David Melding
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

7 Ionawr 2014

Annwyl David,

Bil Addysg (Cymru) – Rhan 2; Cyngor y Gweithlu Addysg

Yn sgil y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, ac ar ôl ystyried yr adroddiadau Cyfnod 1 a baratowyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwy'n ysgrifennu atoch cyn ymddangos gerbron y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ymateb i'r adroddiadau hynny.

Fel y dywedais yn fy Natganiad diweddar ar ganlyniadau PISA eleni, mae'n bwysig ein bod nawr yn parhau â'n hymgyrch i wella safonau addysgol a chyrhaeddiad yn ein hysgolion. Drwy greu sail ar gyfer adeiladu system addysg o'r radd flaenaf, lle mae ymarferwyr yn cydweithio i wella safonau'r addysgu ac ansawdd y dysgu, bydd y Bil hwn yn ein helpu i gyrraedd ein nod mewn llawer o ffyrdd pwysig ac arwyddocaol. Rwy'n ddiolchgar i'ch pwyllgor am y gwaith craffu trylwyr y mae wedi ei gyflawni a hefyd am ei adroddiad ar y casgliadau.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd, rwyf eisoes wedi datgan fy mwriad i:

- gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau bod ei gwmpas yn ddigon eang i gynnwys y sector annibynnol o fewn y gofyniad i gofrestru ar ddyddiad yn y dyfodol, os bydd tystiolaeth gref y dylwn wneud hynny;
- sicrhau bod y rheoliadau a wneir o dan Adran 5 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; a
- hysbysu'r Pwyllgor pan fyddwn yn ymgynghori ar y gorchymyn drafft a'r rheoliadau cysylltiedig mewn perthynas â Gweithwyr leuenctid, gan y byddem yn croesawu cyfraniad y Pwyllgorau i'r ymgynghoriad hwnnw.

Roedd eich adroddiad Cyfnod 1 yn mynegi pryder mai natur fframwaith sydd i Ran 2, ond rhaid nodi bod rheswm da ac angenrheidiol am y modd y mae'r Bil wedi ei strwythuro, fel rwyf yn ei egluro isod.

Fel y pwysleisiwyd yn y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, mae yna wahaniaethau mawr yn y trefniadau presennol ar gyfer gwahanol swyddogaethau o fewn y gweithlu addysg. Mae'r dystiolaeth wedi tynnu sylw at y gwahanol gamau datblygu; hyd yn hyn, nid yw'n ofynnol i staff cymorth gael eu rheoleiddio o gwbl, er gwaetha'r ffaith bod systemau ar gyfer athrawon wedi bod ar waith ers amser. Er enghraifft, mae athrawon eisoes yn gorfod cydymffurfio â gofynion cofrestru cynhwysfawr, gofynion ynghylch cymwysterau a phroses werthuso. Mae strwythur y Bil yn ystyried y gwahaniaethau hyn sy'n bodoli yn y gofynion presennol.

Hefyd mae'r Bil yn darparu ar gyfer ychwanegu categorïau eraill o weithwyr yn y dyfodol. Rwyf wedi gorfod cadw'r amrywiaethau hyn mewn cof wrth ddatblygu'r Rhan hon o'r Bil ac wrth ystyried cydbwysedd rhwng yr hyn a roddir ar wyneb y Bil a'r hyn y mae'n fwy priodol ymdrin ag ef mewn is-ddeddfwriaeth. Os ydym am ymateb yn effeithiol i anghenion y gweithlu ehangach a'u gwahanol gamau datblygu, mae'r hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn gyflym, fel y gellir eu sicrhau drwy is-ddeddfwriaeth, yn rhywbeth sydd nid yn unig yn ddymunol ond yn hytrach yn hollol hanfodol i'n llwyddiant.

Lle bo hynny'n bosibl, rwyf wedi disgrifio'n fanwl yr hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau a'r hyn sydd ar wyneb y Bil, a chredaf fod hynny'n dangos yn glir ein bwriad o ran polisi. Mae'n golygu hefyd y byddwn hefyd yn gallu gwneud rheoliadau a fydd yn ein helpu i wireddu ein huchelgais o godi safonau

Wrth bennu'r darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth, hoffwn roi sicrwydd i'ch Pwyllgor fy mod wedi cadw at ganllawiau'r Cwnsler Cyffredinol o ran penderfynu a ddylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ynteu'r weithdrefn negyddol.

Wedi ystyried ymhellach ac yn fanwl, ac yng ngoleuni'r adroddiadau Cyfnod 1 a baratowyd gennych chi a chan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, byddaf yn cyflwyno gwelliannau pellach lle bo hynny'n gywir ac yn briodol. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 yn y meysydd canlynol:

- **Adran 7** – Gan ymateb i bryderon y Pwyllgor ynghylch annibyniaeth y Cyngor, cyflwynir gwelliant sy'n golygu na fydd yn ofynnol i'r Cyngor gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyngor ar y materion perthnasol a nodir yn adran 7(2). Yn lle cael caniatâd, bydd y gwelliant rwy'n ei gynnig i'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hysbysu Gweinidogion Cymru am y cyngor y mae wedi ei roi.
- **Adran 8** - Byddaf yn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd ynghylch yr hyn a welir fel diffyg cyfeirio at ddatblygiad proffesiynol parhaus. Cyflwynir gwelliant i'r adran hon a fydd yn cyfeirio at ddatblygiad gyrfa.
- **Adran 12** - Bydd arfer pŵer o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 53.
- **Atodlen 1, paragraff 3** Rwy'n cynnig gwelliant i bennu ar wyneb y Bil bod 14 o aelodau yn gwasanaethu ar y Cyngor i ddechrau.
- **Atodlen 1, paragraffau 4 (2) a 9 (2)** Cyflwynir gwelliannau i'r paragraffau hyn i nodi y gall y rheoliadau gyfeirio at god ymarfer sy'n ymwneud â'r weithdrefn penodiadau cyhoeddus. Mae hyn mewn ymateb i bryderon rhai Aelodau sy'n teimlo y gallai fod yna ddiffyg annibyniaeth, ac felly mae'n rhoi sicrwydd y bydd yr aelodau'n cael eu penodi mewn modd teg ac yn ôl eu teilyngdod. Fel y dywedwyd yn y Pwyllgor, wrth wneud penodiadau mae Gweinidogion Cymru bob amser wedi ymrwymo i gadw at y Cod

Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrrff Cyhoeddus neu unrhyw god perthnasol sydd mewn grym ar y pryd.

Rydym yn gwybod o ganlyniadau PISA bod angen inni sicrhau bod ein dysgwyr yn cael cyfle i elwa ar weithlu sydd â sgiliau rhagorol ac sy'n cael ei arwain yn effeithiol. Yr ymarferwyr yw'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r dysgwyr, a'r ymarferwyr sy'n gyfrifol am droi mentrau a pholisïau gwella cenedlaethol yn realiti. Rydym felly'n dibynnu'n fawr ar weithlu ein hysgolion i sicrhau'r gwelliant y mae ei angen.

Rwy'n ffyddiog y bydd y gwelliannau arfaethedig yn creu'r cydbwysedd iawn ac y bydd y darpariaethau yn Rhan 2 y Bil yn creu sail briodol ar gyfer gwireddu'r agenda hon ar gyfer gwella.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno bod fy ymateb i'ch adroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rwy'n ysgrifennu llythyr tebyg at Ann Jones AC yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Best Regards
Huw

Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/HL/1253/13

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

6 Ionawr 2014

Annwyl Ann,

Bil Addysg (Cymru)

Yn sgil y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, ac ar ôl ystyried yn fanwl yr adroddiad craffu defnyddiol a baratowyd gan eich Pwyllgor a hefyd y dadleuon o bob ochr, rwyf wedi penderfynu o blaid diddymu'r darpariaethau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o Fil Addysg (Cymru).

Rwy'n parhau'n ymrwymedig i gefnogi ein dysgwyr yng Nghymru, ac rwyf hefyd wedi gwrandao ar farn rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cynulliad sy'n dweud mai'r peth gorau fyddai diddymu'r darpariaethau AAA o'r Bil hwn, gan eu rhoi yn hytrach mewn Bil Diwygio AAA ar wahân. Mae'r Llywodraeth hon yn rhoi pwys mawr ar y broses graffu - ac felly byddaf yn rhoi fy nghefnogaeth i ddiddymu Rhan 3 (Personau ag Anawsterau Dysgu) o'r Bil hwn.

Fodd bynnag, hoffwn sicrhau rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cynulliad y bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda nhw i gyflwyno deddfwriaeth gydlynus a holistaidd cyn gynted â phosibl. Er fy mod yn siomedig o safbwynt y dysgwyr eu hunain, gan y bydd oedi cyn gweithredu'r darpariaethau, hoffwn bwysleisio nad yw hyn yn gam yn ôl mewn unrhyw ffordd. Rwy'n cydnabod pa mor hanfodol yw gweithio ar y cyd ar ddeddfwriaeth sydd mor bwysig â hon, ac rwy'n gobeithio y byddwch chi ac aelodau eich Pwyllgor yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu deddfwriaeth diwygio AAA pan fyddaf yn ei chyflwyno ar y cyfle nesaf.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at David Melding AC yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, er ei wybodaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Huw Lewis'.

Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm gan Lywodraeth Cymru

Memorandwm yn ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Roi Pwerau i Weinidogion Cymru yng Nghyfreithiau'r DU, Argymhelliad 1: *“Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Cynulliad ystyried penderfyniad ‘datganiadol’ yn nodi dealltwriaeth y Cynulliad o gonfensiwn Sewel fel y mae'n gymwys i Gymru”*

Yn ei Ymchwiliad yn 2012 i'r Pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yng Nghyfreithiau'r DU, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Cynulliad ystyried penderfyniad 'datganiadol' yn nodi dealltwriaeth y Cynulliad o gonfensiwn Sewel fel y mae'n gymwys i Gymru.

I gynorthwyo ystyriaeth y Cynulliad, mae'r memorandwm hwn yn nodi dull Llywodraeth Cymru ar sail ei phrofiad o weithredu'r confensiwn ers deddfu Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a roes bwerau deddfwriaethol sylfaenol cyfyngedig i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn sgil refferendwm 2011, mae'r confensiwn wedi cael ei gymhwyso'n fwy cyffredin fel rhan o ehangu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Y Cyd-destun Cyfansoddiadol

Yn gyffredinol, mae'r setliadau datganoli'n mynd rhagddynt ar y sail bod y cyfrifoldeb dros arfer pwerau Gweinidogol (gweithredol) penodedig yn cael ei drosglwyddo o Lywodraeth y DU i'r gweinyddiaethau datganoledig; gyda rhai eithriadau, felly, nid yw Gweinidogion Llywodraeth y DU bellach yn gallu arfer pwerau o'r fath mewn perthynas â Chymru, yn ein hachos ni.

Nid yw hynny'n wir, er hynny, mewn perthynas â phwerau deddfwriaethol; nid yw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad “[do] not affect the power of the Parliament of the United Kingdom to make laws for Wales” (ac mae darpariaeth gyfatebol yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd Senedd yr Alban). Felly effaith Deddf 2006 (a Deddf yr Alban 1998) yw y gall Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig wneud cyfraith i Gymru neu'r Alban ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig.

Pan oedd Bil yr Alban ar ei hynt trwy'r Senedd yn 1998 cydnabuwyd y gallai'r sefyllfa hon arwain at lunio deddfwriaeth anghyson neu eitemau o ddeddfwriaeth sy'n cystadlu â'i gilydd ynghylch materion datganoledig i'r Alban gan Senedd y DU a Senedd yr Alban. Gan roi sylw i'r cyfreithlondeb democrataidd sy'n cael ei fwynhau yn benodol gan Senedd yr Alban yn sgil refferendwm 1997, roedd Llywodraeth y DU o'r farn y byddai'n briodol i Senedd y DU fabwysiadu deddf

ymwadiad mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.

Yn unol â hynny, ac yntau'n siarad ar ran Llywodraeth y DU ar hynt a helynt Bil yr Alban yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedodd yr Arglwydd Sewel y byddai Llywodraeth y DU yn disgwyl i gonfensiwn gael ei sefydlu na fyddai San Steffan yn deddfu fel rheol mewn perthynas â materion datganoledig yn yr Alban heb gydsyniad Senedd yr Alban.

Mae'r egwyddor wedi cael ei hymestyn i bob un o'r tair deddfwrfa ddatganoledig ac mae wedi'i hymgorffori yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r ffordd y mae'n cael ei chymhwyso i Gymru wedi'i nodi yn "Devolution Guidance Note 9" sy'n darparu canllawiau i swyddogion Whitehall ar "Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales".

Mae'r MoU yn cadarnhau y bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu fel pe bai confensiwn yn ei le na fyddai'r Senedd fel rheol yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gytundeb y ddeddfwrfa ddatganoledig. Effaith ymarferol y confensiwn yw bod Llywodraeth y DU yn ymrwmo i weithio gyda'r weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol, i sicrhau cydsyniad y ddeddfwrfa ddatganoledig berthnasol pan fo'n cynnig cyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd ar faterion datganoledig. Felly bydd angen cytundeb Llywodraeth y DU ar gyfer unrhyw gynigion i newid y gweithdrefnau sy'n rhoi effaith i'r confensiwn.

Y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol

Nodir y trefniadau ar gyfer galluogi'r Cynulliad i ystyried a ddylid rhoi cydsyniad i ddeddfwriaeth Seneddol ar faterion datganoledig yn Rheol Sefydlog 29 (OS 29). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ynghylch Bil Seneddol sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd naill ai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw. Mae darpariaethau sy'n gysylltiedig, yn ganlyniadol neu'n fyrhoedlog etc ac sy'n ymwneud â materion heb fod yn faterion datganoledig wedi'u heithrio rhag y gofyniad hwn.

Mae OS 29 hefyd yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys yn y memorandwm, yr amserlenni ar gyfer ei osod, a'r disgwyliad y bydd y pwyllgor yn craffu arno. Ar ôl i femorandwm gael ei osod, gall cynnig cydsyniad deddfwriaethol (LCM) gael ei gyflwyno hefyd ac wedyn mater i'r Cynulliad yw penderfynu a yw am roi ei gydsyniad neu beidio.

Egwyddorion

Yn awr bod gan y Cynulliad ei bwerau deddfwriaeth sylfaenol ei hun, y rhagdybiaeth yw y dylai ddeddfu i Gymru ar faterion datganoledig. Er hynny ceir

amgylchiadau pan fo'n ymarferol ac yn gyfleus cynnwys darpariaethau datganoledig mewn deddfwriaeth Seneddol. Nodwyd enghreifftiau pan allai hyn ddigwydd gan y Prif Weinidog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor yn Nhachwedd 2011. Yn yr achosion hyn, mae Llywodraeth Cymru'n ymdrechu i roi effaith i egwyddor cydsyniad deddfwriaethol trwy weithdrefnau amserol ac effeithlon sy'n galluogi'r Cynulliad i roi ystyriaeth briodol i'r materion.

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn bod yr egwyddor o beri bod cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fo gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol o'r pwys pennaf. Y Cynulliad yw'r corff sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd i fod yn atebol i bobl Cymru am faterion datganoledig. Dylid gofyn iddo felly roi cymeradwyaeth i'r Senedd ddeddfu ar y materion hynny.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) Llywodraeth y DU'n sefydlu egwyddor ymgysylltiad cynnar â'r gweinyddiaethau datganoledig ar faterion sydd o ddi-ddordeb cyffredin, gan gynnwys deddfwriaeth. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n aml yn rhan o drafodaethau ar gynigion deddfwriaethol; sy'n effeithio ar faterion datganoledig gyda swyddogion Whitehall ar sail gyfrinachol wrth iddynt ddatblygu cyn Araith y Frenhines, sy'n cyhoeddi pob rhaglen ddeddfwriaethol newydd. Mae swyddogion yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar oblygiadau tebygol y darpariaethau hyn a bydd gohebiaeth rhwng y Gweinidogion yn nodi safbwynt Gweinidogion Cymru er mwyn datrys unrhyw anghydfod cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, gan alluogi Gweinidogion Cymru i gefnogi cynnwys y darpariaethau arfaethedig pan gaiff LCM ei drafod yn y Cynulliad.

Amser byr ar ôl Araith y Frenhines, mae'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth yn ysgrifennu at y Llywydd yn nodi'r Biliau hynny y gallai fod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer. Mae datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad ar Araith y Frenhines yn darparu gwybodaeth bellach. Er hynny, dim ond pan gaiff darpariaethau manwl Bil eu harchwilio y gellir gwneud penderfyniadau am yr angen am Gydsyniad y Cynulliad (a gallai diwygiadau i Fil yn ystod ei hynt trwy'r Senedd ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniadau hynny gael eu hailystyried, a gosod cynigion cydsyniad ychwanegol gerbron y Cynulliad).

Os bydd darpariaethau mewn Bil Seneddol yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad, mae angen sicrhau hyn, fan bellaf, cyn y cyfnod diwygio terfynol yn yr ail Dŷ h.y. y Tŷ, sef Tŷ'r Arglwyddi fel rheol, sy'n ystyried y Bil ar ôl iddo basio eisoes trwy'r Tŷ arall. Diben yr amserlen hon yw y gellir diwygio'r Bil yn ôl yr angen os na lwyddir i sicrhau Cydsyniad y Cynulliad.

Profiad ymarferol hyd yn hyn

Cafodd yr LCM cyntaf a fu gerbron y Cynulliad ei drafod ar 17 Mehefin 2008. Ar 13 Rhagfyr 2013, mae 51 o LCMs wedi'u cyflwyno yn y Cynulliad, ac o'r rheiny

cafodd 16 eu cyflwyno yn y cyfnod cyn Mai 2011 pan gafodd y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaeth sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn gweithio'n effeithiol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gan alluogi'r Cynulliad i graffu ar y darpariaethau perthnasol yn neddfwriaeth y DU, gyda'r fantais bod y Pwyllgor wedi craffu arno ymlaen llaw. Pan fo darpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig, os nad yw'r Cynulliad yn cydsynio, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i Lywodraeth y DU naill ai ddiwygio'r Bil fel ei bod yn debygol y byddai'r Cynulliad yn gallu rhoi ei gydsyniad, neu i hepgor y darpariaethau sy'n ymdrin â materion datganoledig fel nad oes angen LCM bellach.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymdrechu i fodloni'r gofynion o dan Reolau Sefydlog, ac fel rheol mae'n gosod LCMs cyn pen pythefnos i ddyddiad cyflwyno'r Bil perthnasol, neu cyn pen pythefnos i'r dyddiad y gosodir diwygiadau perthnasol Llywodraeth y DU. Er hynny, gall Bil fod yn destun cyfres o ddiwygiadau perthnasol, sy'n ei gwneud yn ofynnol gosod memoranda diwygiedig neu atodol. O dan yr amgylchiadau hyn, gall fod yn ddoeth weithiau gohirio gosod y memorandwm, er mwyn i'r holl ddiwygiadau gael eu cynnwys yn yr un memorandwm, neu i ohirio'r dadl arfaethedig ar y memorandwm cyntaf gan y Cynulliad er mwn caniatáu amser ychwanegol i graffu ar femorandwm diwygiedig neu atodol. Ym mhob achos, mae Llywodraeth Cymru'n anelu at gydbwyso angen dilys y Cynulliad am ddigon o amser i graffu, â'r angen i sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn cael eu hystyried gan y Cynulliad mewn da bryd i ganiatáu i'r Bil gael ei ddiwygio os na lwyddir i sicrhau cydsyniad y Cynulliad.

Y sefyllfa sydd ohoni ar 13 Rhagfyr 2013 yw bod y Cynulliad wedi cadw ei gydsyniad i ddarpariaethau yn Neddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar faterion datganoledig yn ôl ar bedwar achlysur.

Yn yr achos cyntaf, sef Bil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, diwygiodd Llywodraeth y DU ei chynigion i ddileu'r effaith ar faterion datganoledig. Nid oedd yr angen am gydsyniad deddfwriaethol yn destun dadl.

Yn yr ail achos, sy'n ymwneud â darpariaethau yn y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, dadleuodd Llywodraeth y DU fod y darpariaethau hyn yn perthyn y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad ac nad oedd angen cydsyniad deddfwriaethol. Gwrthododd felly ddiwygio'r Bil. O ganlyniad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei deddfwriaeth ei hun a basiwyd gan y Cynulliad, ond sydd bellach yn destun atgyfeiriad gan y Twrnai Cyffredinol i'r Uchel Lys.

Yn y trydydd achos sy'n ymwneud â darpariaethau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol, cytunodd Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil trwy gyflwyno gwelliant i ddileu Byrddau Draenio Mewnol trawsffiniol o drefn archwilio Lloegr.

Yn y pedwerydd achos, gwrthododd y Cynulliad roi cymeradwyaeth i welliant gan Lywodraeth y DU i'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma, a ddisodlodd eithriad y gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gydag eithriad newydd. Yn sgil gwrthodiad y Cynulliad i roi cydsyniad deddfwriaethol, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ddileu'r ddarpariaeth berthnasol o'r Bil. Dadleuodd Llywodraeth y DU nad oedd angen LCM, ac mae wedi gwrthod dileu'r ddarpariaeth o'r Bil.

Casgliad

Mae'r gofyniad i gael cydsyniad y Cynulliad i ddeddfwriaeth Seneddol o fewn cymhwysedd datganoledig yn agwedd bwysig ar gyfansoddiad y DU yn seiliedig ar ddatganoli: diben y cydsyniad yw cysoni egwyddorion cyfreithiol parhaus cymhwysedd deddfwriaethol Seneddol anghyfyngedig â'r cyfreithlondeb democrataidd sydd gan y Cynulliad a disgwyliad y cyhoedd mai'r Cynulliad piau'r prif gyfrifoldeb dros ddeddfu i Gymru ar faterion datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru felly'n rhoi pwys mawr ar sicrhau bod y gofyniad am gydsyniad o dan amgylchiadau priodol yn cael ei barchu'n llawn, a bod y Cynulliad yn cael cyfleoedd priodol i roi i'r materion hyn yr ystyriaeth lawn a gofalus y maent yn ei haeddu.

**Llywodraeth Cymru
Rhagfyr 2013**

Eitem 5.1

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5.2

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon